

Tynnwch y dudalen hon yn rhydd a'i hanfon gyda chopïau o ddau ddatganiad banc neu fil gwasanaethau diweddar ar gyfer yr un cyfeiriad ac i'r un enw, ynghyd â chopi o'ch Dogfen Gofrestru V a llun o'r cerbyd i:

Amgylchedd, Ffyrdd A Chyfleusterau
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Conwy Road
Mochdre
Bae Colwyn
LL28 5AB

Neu gallwch alw draw i'n gweld yn ein swyddfeydd ym Mochdre gyda'r dogfennau angenrheidiol a phrawf o'ch cyfeiriad.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn neu angen fersiwn print mawr o'r ddogfen, mae pob croeso i chi gysylltu â'r Tîm Ymholiadau Amgylchedd:

☎ 01492 575337

✉ affch@conwy.gov.uk

AR GYFER DEFNYDD Y SWYDDFA'N UNIG

Rhif y Drwydded: _____

Gwiriwyd dogfen V5 :

Gwiriwyd prawf cyfeiriad:

Derbyniwyd llun:

Dyddiad rhoi'r Drwydded : _____

Dyddiad y daw'r Drwydded i ben: _____



Trwydded Fan Ddomestig ar gyfer Canolfannau Ailgylchu

Oes angen Trwydded Fan Ddomestig arna i?

Os ydych chi'n berchennog fan neu gerbyd 'masnachol' ac rydych am ddefnyddio'r cerbyd hwn i gludo gwastraff y cartref (gwastraff o'ch cartref chi) i'n canolfannau ailgylchu, bydd angen Trwydded Fan arnoch chi.

Dim ond gwastraff trigolion Conwy caiff ei dderbyn yn ein canolfannau ailgylchu. Mae'r Drwydded Fan yn dangos eich bod yn byw yn Sir Conwy ac nid busnes mohonoch sy'n ceisio cael gwared â gwastraff masnachol. Nid oes angen trwydded i gludo gwastraff y cartref i'n canolfannau ailgylchu gyda char.

Ydw i'n gymwys i gael Trwydded Fan Ddomestig?

- Mae'n rhaid bod y cerbyd wedi'i gofrestru yn eich enw chi ac nid enw busnes neu sefydliad.
- Mae'n rhaid bod eich cerbyd wedi'i gofrestru i gyfeiriad yn Sir Conwy.
- Mae'n rhaid i'ch cerbyd fod yn is na 2m a heb unrhyw lythrennu arno nac unrhyw hysbysebion.

Beth gallaf ei wneud os nad wyf yn gymwys?

Rydym yn cynnig gwasanaeth casglu ar gyfer eitemau swmpus ac mae gennym nifer o wasanaethau casglu gwastraff masnachol. I gael rhagor o fanylion, ffoniwch 01492 575337 neu anfonwch e-bost at: affch@conwy.gov.uk

Fel arall, gallwch fynd â'ch gwastraff i safle cael gwared â gwastraff neu wasanaeth casglu gwastraff masnachol. Edrychwch dan 'Waste Disposal-Commercial' yn Yellow Pages.

Telerau ac Amodau

- 1) Gwrthodir mynediad i'r safle os oes llythrennu ar y cerbyd. Os rhoddir trwydded i gerbyd, a bod y cerbyd hwnnw wedyn yn cael ei lythrennu, gwrthodir mynediad i'r safle a diddymir y drwydded.
- 2) Ni roddir Trwydded i gerbydau sy'n uwch na 2 fetr.
- 3) Caniateir mynediad i'r Ganolfan Ailgylchu (Canolfan) i ailgylchu a chael gwared â gwastraff y cartref a'i ailgylchu'n unig.
- 4) Mae'n rhaid dangos trwydded ddilys ar y ffenestr flaen y cerbyd cyn cael mynediad i'r safle.
- 5) Bydd llyfr 20 tocyn yn cael ei roi gyda'r drwydded. Dim ond pedwar ohonynt gallwch eu defnyddio ar gyfer cael gwared â rwbwl. Mae'n rhaid i yrwyr ddod â'r llyfr gyda nhw bob tro maent yn ymweld â'r ganolfan, dangos y Drwydded a rhoi un tocyn i'r staff wrth gyrraedd. Dim ond un llyfr o docynnau fydd yn cael ei roi i bob cartref bob blwyddyn. Os byddwch yn colli'r llyfr, ni fyddwn yn rhoi llyfr arall i chi. Cadwch y tocynnau mewn lle diogel.
- 6) Ni chaniateir mynediad i'r ganolfan heb Drwydded a Thocyn.
- 7) Os yw'r daliwr Trwydded yn newid ei gerbyd, mae'n rhaid anfon yr hen Drwydded a thocynnau'n ôl cyn y byddwn yn rhoi Trwydded a thocynnau newydd.
- 8) Os ymyrrir â'r Drwydded neu'r tocynnau, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i'r safle a diddymu'r Drwydded.
- 9) Os yw'r Drwydded wedi dod i ben, bydd staff y safle'n gwrthod mynediad i'r safle.
- 10) Nid yw'r Drwydded hon yn caniatáu cael gwared â gwastraff masnachol. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i'w staff archwilio a gwrthod unrhyw ddeunydd sydd fel petai'n dod o weithgarwch masnachol.
- 11) Dim ond gwastraff o Sir Conwy gellir cael gwared arno yn y Ganolfan.
- 12) Cyfrifoldeb daliwr y Drwydded yw ei hadnewyddu bob blwyddyn. Mae'n rhaid cyflwyno'r dogfennau angenrheidiol i wneud cais am Drwydded a'i hadnewyddu.
- 13) Bydd y Cyngor yn adolygu'r telerau ac amodau hyn o dro i dro, gan gadw'r hawl i'w newid yn ôl y gofyn. Bydd pob deiliwr trwydded yn cael gwybod trwy lythyr am unrhyw newid i'r telerau ac amodau.
- 14) Mae'n rhaid i bob deunydd y ceir gwared ohono yn y ganolfan ailgylchu gydymffurfio â rheolau'r safle ac yn unol â chymarwyddiadau staff y safle hwnnw.
- 15) Ni fydd y Cyngor yn derbyn camdriniaeth llafar na chorfforol i'w staff na difrod i'w eiddo. Bydd ymddygiad fel hyn yn arwain at waharddiad o'r safle'n syth.
- 16) Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw gais.

Ffurflen Gais am Drwydded Fan Ddomestig

I wneud cais am Drwydded Fan Ddomestig, a wnewch chi gwblhau'r ffurflen isod a'i hanfon yn ôl i'r cyfeiriad ar y dudalen nesaf gyda chopi o'ch dogfen V5 cofrestru cerbyd, copi o ddau ddatganiad banc neu fil gwasanaethau diweddar a llun o'r cerbyd rydych am ei gofrestru.

Neu gallwch alw draw i'n gweld yn ein swyddfeydd ym Mochdre gyda'r dogfennau angenrheidiol. Mae ein cyfeiriad a manylion sut i gysylltu â ni ar y dudalen nesaf.

Enw	
Cyfeiriad	
Cod Post	
Rhif Ffôn	
Lliw	
Rhif Cofrestru'r Cerbyd	
Gwneuthuriad a Model	

- Rwyf wedi darllen a derbyn y telerau ac amodau ac rwyf yn derbyn y bydd methu â chydymffurfio â nhw yn arwain at ddiddymu'r drwydded.

Enw (Printiwch):

Llofnod:

Dyddiad:

